Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 15. Rhif 2. CHWEFROR, 1915. Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Oddiar y Twr.
Ymson y Myfyriwr.
Ar y Trothwy.
Ymwelfiad a'r Iseldiroedd.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.
Cred Undodiaid.
Yr Eryr a'r Llew.
Adolygiad.
Phiolaid o Ddwfr.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN AWR YN BAROD—

'Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW'

GAN Y PARCH. JOSEPH WOOD.

(WEDI EI GYFIEITHU I'R GYMRAEG).

Pris 1/-; drwy y Post 1/1½. I ddosparthwyr, 7 copi am bris 6.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

TALIADAU.

Mrs. D. Dolbantau; R.T., Laugharne; D. & E.T., Brynmeddyg; E.C.E., Wisconsin; Dr. J. D. J., Ystrad; E. J., Drefach; Mrs. J. Llansamlet; D.D., Gwardafolog; J.P., St. Clears; D.D., Gwarcefel Arms; Rev. E. E. J., Bolton; Mrs. M. R., Pontregwenlais; Mrs. R., Ysguborfawr; Rev. J.E.J., Birkenhead; T. E., Penffin; E. D., Llanarth; Mrs. P.J., Llanover; D.D., Coedpenmaen; Miss D., Llwynifan; Mrs. T. D. T., Punxtawney; J.J., Aberaman farm; Mrs. E., Aberdare; D. J., Clydach Vale; J. J. W., Trebanos.

'Crwth Dyffryn Clettwr'

PRIS (LLIAN) 2/-. CLUDIAD 2g. Y COPI.

Ychydig Gopiau heb eu gwerthu.

I'W CAEL O

SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR * YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1915. [CYF. XV. RHIF 2.

ODDIAR Y TWR.

Y MAE GENYF FEIBL AR Y TWR.

Ac wrth droi o honof ei dudalenau y dydd o'r blaen, daethum o hyd i'r stori a ganlyn. Yr oedd brenin Syria wedi penderfynu ymosod ar wlad Israel. Pan ar gychwyn ar yr ymgyrch, mynegodd i'w weision y lle y bwriadai wersyllu ynddo. Yn rhywfodd daeth Eliseus y prophwyd i wybod bwriad brenin Syria, ac ni chollodd amser i'w fynegi i frenin Israel. Y canlyniad fu i frenin Israel fyned i'r lle penodedig o flaen brenin Syria. Cythryblwyd brenin Syria yn fawr gan hyn. Tybiodd fod ysbïwyr o'i fyddin ef wedi dadguddio'r gyfrinach i'r gelyn. Galwodd ei weision ato, a gofynodd iddynt, "Oni fynegwch i mi pwy o honom ni sydd gyda brenin Israel?" I'r hyn yr atebodd ei weision, "Nid oes neb, fy arglwydd frenin; ond Eliseus y prophwyd, yr hwn sydd yn Israel, a fynega i frenin Israel y geiriau a leferi di yn nghanol dy ystafell wely." Ar ol cael allan drwy ysbïwyr yn mha le yr oedd Eliseus, danfonodd feirch a cherbydau a llu mawr o filwyr i'w ddwyn i'w afael. Ond llwyddodd Eliseus, yn rhywfodd, nid yn unig i ochelyd syrthio i law y Syriaid, ond hefyd i gludo'r fyddin Syriaidd yn garcharorion i Samaria. Ar ol eu cael i'w gafael fel hyn, beth oedd yn naturiol i'r Israeliaid i wneud iddynt? Awgrymir yr ateb gan ofyniad brenin Israel i Eliseus: "A brenin Israel a ddywedodd wrth Eliseus, pan welodd efe hwynt [y Syriaid], gan daro a dafawaf fi hwynt, fy nhad?" Ie, dyna oedd naturiol—taro'r Syriaid am fod y Syriaid wedi bwriadu taro'r Israeliaid. Beth oedd ateb Eliseus? Dyma fe: "Na tharo * * * gosod fara a dwfr ger eu bron hwynt, fel y bwyttaont ac yr yfont, ac yr elont at eu harglwydd." Felly arlwyodd brenin Israel i'r Syriaid arlwy fawr. Ac yna dychwelasant at eu harglwydd i Syria. Ai dyma'r terfyn? Na!

Y MAE Y RHAN OREU O'R STORI AR OL:

"felly byddinoedd Syria ni chwanegasant ddyfod mwyach i wlad

Israel." Yr oedd yr Israeliaid, dan gyfarwyddyd Eliseus, wedi ymddwyn yn fawrfrydig rhyfeddol. Ac effaith y mawrfrydigrwydd hwn oedd troi'r Syriaid o fod yn elynion i fod yn gyfeillion i'r Israeliaid. Dyna'r stori. Onid yw yn swnio yn debyg iawn i lawer o gynwys ein papyrau ni yn y dyddiau hyn? Y mae swn rhyfel yn rhedeg trwy'r oll o honi. Swn rhyfel sydd yn byddaru ein clustiau ninau heddyw. Ond y mae yn y stori hen-amserol uchod, mi gredaf, wers bwysig i'r gwledydd sydd yn awr yn ceisio dinystrio eu gilydd. Ar y goreu nid oes ond creulondeb i'w ddisgwyl yn nglyn â rhyfeloedd. Pan yr â byddin allan i faes y frwydr daw creulondeb i'w orsedd. Rhaid yw i bob milwr fod ar ei oreu i orchfygu'r gelyn. Ond disgwylir hyd y nod i filwr ar faes y frwydr i gyfyngu creulondeb tu fewn i'r cylch milwrol. A phan y metha un neu'r llall o'r byddinoedd wneud hyn, y mae'r hyn sydd oreu yn y ddynoliaeth ar unwaith yn codi mewn gwrthdystiad yn ei herbyn. Y mae y rhyfel presenol wedi bod yn

Achlysur i Greulonder ar Du'r Fyddin Germanaidd

nad yw hanes yn cofnodi dim cyffelyb iddo. Ac y mae'r desgrifiadau o'r creulondeb hwn wedi cyffroi'r teimlad dynol drwy'r holl fyd fel nas cyffrowyd ef gan ddim arall yn nghof dynion. Wrth ein bod yn darllen am y creulonderau hyn, beth yw'r teimlad cyntaf, naturiol, gynyrchir ynom ganddynt? Teimlad, nid yn unig o arswyd, ond hefyd o awydd am ddial—am dalu yn ol, nid yn unig i'r fyddin Germanaidd, ond hefyd i holl Germani pan ddeuir o hyd iddynt, fel y dywedwn ni, yn eu harian eu hunain. Gwnaed y darllenydd ymchwiliad di-duedd i deimladau dyfnaf ei fynwes: ai nid oes rhywrith o'r teimlad hwn—yr awydd am ddial—yno? Dywedwn ni a fynwn, y mae'r teimlad hwn yn un naturiol iawn; ac y mae rhyw gymaint o hono yn ddiamheuol, yn mynwes pob Prydeiniwr heddyw. Dywedwn (neu fe feddyliwn yn nghiliau'r galon): "Gadewch i'n byddinoedd ni fyned i fewn i Germani: yna cânt weled nad hwy yn unig fedr fod yn greulawn. Fe gânt hwy ddioddef fel y dioddefodd pobl Belgium." Dyna deimlad yr Israeliaid pan y syrthiodd y Syriaid i'w gafael. Ond yr oedd Eliseus yn byw ar dir llawer uwch; yr oedd o ysbryd mwy mawrfrydig na'r brenin a'i fyddin. "Ymddygwch tuag atynt," meddai mewn effaith, "mewn ysbryd mwy teilwng nag ysbryd dial." Dwg hyn ni at

Y Wers sydd yn y Dywediad i Ni Heddyw.

Yr ydym mewn gobaith fod yr adeg yn agos pan y gyrir y fyddin Germanaidd yn ol i'w gwlad eu hunain. Pan y cymer hyn le, pa fath ymddygiad fydd yn gweddu i'n byddin ni a'r byddinoedd cyd-weithredol ereill? Naturiol iawn fydd y dymuniad am ddial: rhaid i ni gydnabod hyn. Ond mawr obeithiwn, er hyny, nad dyna'r ysbryd cryfaf fydd yn llywodraethu ein byddinoedd ar ol sangu o honynt ar

dir y gelyn. Gan ein bod wedi cael ein gorfodi i fyned i ryfel, rhaid yw brwydro hyd nes enill y fuddugoliaeth, a difetha'r ysbryd milwrol sydd wedi bod yn achos penaf i'r rhyfel. Ond mawr obeithiwn—ac y mae genyf ddigon o ffydd yn nynoliaeth ein byddin ni, o leiaf, gan nad beth am y byddinoedd cyd-weithredol ereill—na fydd iddynt wneud dim a esyd ysmotyn ar gymeriad y fyddin, ac ar gymeriad y wlad tu cefn i'r fyddin. Y mae creulondeb, fel y sylwyd, yn anocheladwy mewn rhyfel. Ond dylid gochelyd poen a chreulondeb diangenrhaid hyd yn oed mewn rhyfel. Y mae'r ysbryd mawrfrydig hwn, efallai yn anhawdd ei arfer mewn adeg gynhyrfus o'r fath hyn. Ond dyna'r ysbryd dâl y ffordd yn oreu yn y diwedd.

Daw Amser Pan y Terfyna y Rhyfel.

Y fath glod a thestyn ardderchog o ymffrost fydd i'r fyddin Brydeinig eu bod wedi brwydro fel dynion, ac nid fel barbariaid. Ond nid am y rheswm hwn yn unig y mae hyn i'w ddymuno, ond ar gyfrif ei ddylanwad hefyd. Y mae y rhyfel wedi achosi teimladau anesgrifiadwy o chwerw ar bob ochr. Pan fydd y rhyfel drosodd, bydd yn rhaid dechreu ar y gwaith o ddileu'r teimladau chwerw hyn, a dwyn teimladau gwell i'w lle. Nid da bod digofaint rhwng gwledydd mwy na rhwng personau unigol. O ddigofaint ni ddeillia ond colled—i bob ochr. Y mae yn golled i Germani fod rhyfel rhyngddi a'r wlad hon: pwy fedr ddweyd faint y golled? Ond nid i Germani yn unig y mae'r golled; y mae—ac fe fydd am hir amser—yn golled i ninau hefyd. A chyda bod y rhyfel drosodd, y peth cyntaf ddylid talu sylw iddo fydd symud y digofaint. Ni ellir gwneud hyn ar unwaith; yn wir, fe fydd, yn debygol, yn waith hir amser. Nawr gymaint yn hawddach fyddai i ni Brydeinwyr i ddod i delerau cyfeillgar unwaith eto â Germani pe buasai ei byddin hi wedi ymddwyn yn fwy dynol nag y maent wedi gwneud. Y mae eu creulonderau di-gyffelyb yn Belgium wedi eu gwneud yn anhawdd i ni i'w hanghofio yn fuan. Y mae Germani, ar y tu arall, ar hyn o bryd, yn cael ei hysu gan ddigofaint at ei gelynion—atom ni Brydeinwyr yn enwedig. Pan fydd y rhyfel drosodd, y fath ddylanwad tangnofus ar y meddwl Germanaidd fydd gan y ffaith fod y fyddin Brydeinig, tra yn ymladd yn Germani, wedi ymladd yn anrhydeddus. Fe fydd, yn ddiamheuol, yn gyfrwng nerthol i ladd yr elyniaeth.

Dyna y Nod y Rhaid i Ni Fyth Edrych i Fyny Ato,—

lladd yr elyniaeth. Fe ddaw amser eto—yr wyf yn dra ffyddiog o hyn—pan fydd y teimladau chwerw, llidus, a ffynant yn awr rhwng y gwledydd rhyfelog, wedi rhoi lle i deimladau gwell, mwy brawdol. Teimladau gwell brawdgarwch yw'r teimladau sydd yn sicrhau llwyddiant, ie, hyd yn oed llwyddiant gwledydd. Ac ni ddylid rhoi i fyny yr ymdrech i ddwyn y teimladau gwell hyn yn nes i fuddugoliaeth. Nid yw yn rhy gynar i ddechreu'r gwaith hwn yn awr, heddyw.

pan nad oes, eto, ond arwyddion gwan fod rhuad y fagnel a thrwst y cledd ar ddystewi. Trwy wneud hyn, yn ol maint ein gallu a'n cyfleusderau—gall pob dyn a benyw wneud rhywfaint—fe fyddwn yn gyfryngau, mwy neu lai nerthol, i ddwyn yr adeg yn nes pan y gwasgerir "y rhai sydd dda ganddynt ryfel," ac y bydd "Heddwch fel afon" rhwng holl genhedloedd y ddaear.

SYLWEDYDD.

YMSON Y MYFYRIWR.

UN o'r anerchiadau mwyaf dyddorol y cefais i y fraint o'u darllen yn ddiweddar oedd eiddo Syr Oliver Lodge ar

Y PWNC O FODOLAETH DDYFODOL.

Un o wyddonwyr blaenaf ein hoes yw Syr Oliver; a Llywydd neu Brif-athraw Prif-ysgol Birmingham. Yn ychwanegol at ei efrydiaethau gwyddonol, y mae wedi gwneyd y pwnc o fywyd ar ol angeu yn destyn ymchwiliad trwyadl. Beth ddywedir ganddo ar y mater? Dywed ei fod wedi boddloni ei hun, trwy brofion nas gellir (yn ei farn ef eu dymchwelyd), fod dyn yn parhau i fodoli ar ol yr hyn a elwir genym ni yn farwolaeth. Nid yw, eto, wedi amlygu beth yw natur y profion hyn. Amhosibl, felly, yw dywedyd beth yw eu gwerth. Nid efe yw'r unig wyddonwr o fri sydd yn credu fod bywyd i barhau. Y mae'r gred hon yn dod yn un fwy-fwy derbyniol yn mhlith y frawdoliaeth wyddonol. Ac ymddengys eu bod yn dybynu ar ysprydegaeth am eu prawf neu eu profion o wirionedd y gred. I'r mwyafrif o Gristionogion sylfaen y gred yw hanes atgyfodiad Iesu yn yr Efengylau. Credant mewn bywyd dyfodol am yr unig reswm—neu am y rheswm, yn benaf—y dywedir yn yr Efengylau fod Iesu wedi ymddangos ar ol ei farwolaeth. I nifer—ie, nifer cynyddol—o Gristionogion, fodd bynag, y mae yn amlwg fod cymaint o'r elfen draddodiadol yn hanesion yr Efengylau o'r atgyfodiad fel nad diogel, fel y barnant, yw sylfaenu'r syniad o fywyd dyfodol arnynt. Rhaid i'r sawl o honom sydd yn y safle hon, felly, hyd nes cael o honom y profion y sonia Syr Oliver am danynt, ymfoddloni ar y dystiolaeth sydd genym yn y ffaith

FOD Y DYHEAD AM BARHAD BYWYD

wedi ei blanu yn ddwfn yn y natur ddynol, fod y meddwl am ddyfodol

mwy perffaith yn feddwl a apelia yn gryf at y galon ddynol, ac fod y ddynolryw gyda'i gilydd a'i golwg fyth at y dyfodol mwy perffaith hwn. Dyn, mor bell ag y gwyddom ni, yw'r unig greadur, yn natur yr hwn y mae y reddf hon wedi ei phlanu. Ai gwir hyn ai peidio,

Y MAE Y REDDF HON MEWN DYN.

Daw i'r golwg drwy holl gwrs ei hanes. Dyna beth sydd wrth wraidd y syniad o Fessiah oedd wedi cymeryd gafael mor gadarn yn meddwl y genedl Iuddewig; hefyd, wrth wraidd y syniad o "deyrnas Dduw" neu "deyrnas nefoedd" yn y Testament Newydd—syniad sydd wedi glynu wrth feddwl y byd Cristionogol byth oddiar hyny. Nid yw'r syniad hwn, ychwaith, yn gyfyngedig i'r byd Cristionogol. Y mae yn syniad cyffredinol; ceir ef, yn rhyw ffurf neu gilydd, yn holl lyfrau cysegredig y byd dynol; y mae yn un o drysorau meddyliol gwerthfawrocaf yr hil ddynol.

Y MAE CYFFREDINOLRWYDD Y MEDDWL HWN YN ARWYDDOCAOL IAWN

Meddyliwn am hyn am foment; dyn, yn mhob oes, yn mhob gwlad, yn mhob cenedl, os yn meddwl o gwbl am faterion o'r fath hyn, yn naturiol yn troi ei olwg i'r dyfodol mwy perffaith a'i herys—fel y cred efe. A'r dynion goreu, hefyd, sydd fel rheol yn credu hyn gadarnaf. Y mae hyn, wrth gwrs, yn ddigon naturiol; fel y mae yn naturiol i ddyn sydd wedi camdreulio ei fywyd i ymswyno rhag meddwl am y dyfodol o gwbl. Ydyw'r ffaith hon—cyffredinolrwydd y meddwl hwn—ddim yn awgrymu rhywbeth mewn perthynas i dynged ddyfodol dyn? Ymddengys i mi ei bod yn amhosibl iddi lai na gwneud hyn. I mi y mae yn meddu'r arwyddocâd hwn—fod yn nglyn a bywyd pob dyn dynged, iddo i'w gweithio hi allan; mai uchafnod y dynged hon yw bywyd mewn undeb â'r bywyd dwyfol; ac yna, yn tarddu o hyn, nad yw tymhor byr o ychydig flynyddau ond cyfleustra i ni i ddechreu, ond nid i gwblhau, gweithio'r dynged hon allan. Gall rhyw un ddyweyd—

NA WYR DYN DDIM AM Y DYFODOL;

ac nad yw pob meddwl parthed y dyfodol ond damcaniaeth wâg. Eithaf gwir. Y mae'r dyfodol wedi ei guddio rhagom gan lèn nas medrwn ni, gyda'n golwg wàn, dreiddio trwyddi. Y mae, nid yn unig y bywyd ar ol angeu, ond hyd yn oed y bywyd nesaf yn guddiedig rhagom. Y mae llèn anweledig yn daenedig o'n blaen; ac ni fedrwn ni dreiddio trwyddi, a dyweyd beth sydd tuhwnt iddi. Ond ni ddigalonir dyn gan yr anallu hwn. Yn wir, y mae'r anallu hwn, yn hytrach na'i flino a'i ddigaloni, yn tueddu i awchlymu ei chwilfrydedd parthed y dyfodol. I'r dyfodol y myn dyn gadw ei olwg—yn wastadol. A pho fwyaf y ceidw ei olwg i'r dyfodol, mwyaf i gyd fydd ei awydd i dreiddio drwy y llèn, er gwybod beth, yn gywir

yw natur tynged ddyfodol dyn. Ac os y metha dreiddio trwyddi—a methu wna—eto, myn foddloni ei chwilfrydedd drwy ffurfio damcaniaethau mewn perthynas i'r dyfodol. Ac yn wastadol, y mae'r darluniau o'r dyfodol ddadlenir o'i flaen fel hyn gan ei ddychymyg yn ddarluniau dymunol, swynol, a chreant awydd mwy neu lai angherddol yn y galon i'w sylweddoli a'u mwynhau—yn y bywyd presenol, os yn bosibl; neu os nad yn y bywyd presenol, eto mewn cyflwr arall o fodolaeth. Yn y dyfodol y mae'r cyflwr perffaith. Yn y gorphenol a'r presenol nid oes ond anmherffeithrwydd. Ar ymylon y llwybrau y mae'r ddynolryw wedi bod yn teithio hyd-ddynt ni welir ond arwyddion o fethiantau dyn, ac o'r galanastra y mae yn fynych wedi wneyd o'i fywyd a'i gyfleusderau. Ond wrth droi o hono ei olwg i'r dyfodol, y mae'r olygfa yn newid: fe wel adeg—"ryw ddydd yn mhell"—pan na fydd ond tegwch a dymunoldeb yn ei amgylchu.

"Ni Amlygwyd Etto Beth a Fyddwn,"

medd un o'r ysgrifenwyr Beiblaidd. Eithaf gwir. Ond os nad yw wedi ei amlygu i ni *beth* a fyddwn, diolch am y meddwl—am y gobaith—am y gred—y byddwn ni yn *rhywbeth*; nad yn ofer y treuliwn ni yr ychydig flynyddau sydd wedi eu trefnu i ni; fod yr ychydig flynyddau hyn yn rhoi i ni gyfleustra i ddechreu gyrfa tuag i fyny nad oes terfyn i fod iddi hyd nes dod o honom yn "gyffelyb iddo ef." Meddwl gogoneddus yw hwn; hebddo ni fyddai'r bywyd dynol ond megis bywyd yr abwydyn gwan, sydd yn parhau am ychydig amser, ac yna yn diflanu am byth; meddwl, i'r hwn a'i cred â'i holl enaid, sydd yn gwneyd y bydysawd mawr yn yr hwn yr ydym yn byw, a'n bywyd ni ein hunain, yn gyfoethog o ystyr. Y mae amser yn myned heibio yn gyflym. Ond y mae Duw yn aros, ac y mae'r enaid dynol yn aros hefyd, ac y mae i fod fyth a'i olwg tuag at y perffeithiach.

Myfyriwr.

Y DELYN AUR.

Araf mae Tragwyddol Gariad
Yn dadguddio'i allu mawr:
Anhawdd iawn drwy niwloedd daear
Y cyrhaedda'i dirion wawr:
Ond dysgleirio
Fwyfwy wna i berffaith ddydd.

Trodd griddfanau'r greadigaeth
Ar y Groes yn ddolef gry',
Eto llwybyr loes arweiniodd
Trwodd i'r gogoniant fry;
Blodeu welir
Heddyw ar y goron ddrain.

Felly o'r diwedd yn beroriaeth
Try amherffaith nodau'r llawr,
Cydgan ber gorfoledd seinir
Gan gydweithwyr Duw yn awr:
Pan ddaw bwriad
Llywydd cread oll yn grwn.

Abertawe, 1913. R. M. Lewis.

*AR Y TROTHWY—1914-1915.

"Er llygru ein dyn oddiallan, er hyny ein dyn oddifewn a adnewyddir o ddydd i ddydd.—2 Cor. 4 : 16.

Mae'r Apostol yn hoff iawn o gyferbynu y mewnol a'r allanol, y daearol a'r ysprydol, yr amserol a'r tragwyddol, y marwol a'r anfarwol, ac wrth hyny i gydnabod y ddau, yr hyn nid yw pawb yn ei wneud heddyw. I lawer heddyw mater ydyw pob peth. Pan fyddo dyn yn marw dyna ddiwedd am dano yn ol addysg y bobl hyn. Ac eto yn rhyfedd fe addefa'r un pobl nad oes dim darfod i fater. Y mae mater, pob gronyn o hono sydd yn cyfansoddi corff dyn yn parhau byth. Hyny yw, y mae'r gronynau mater difywyd sydd yn cyfansoddi'r corff yn aros, a'r peth dirgel hwnw sydd yn rheoli'r oll, pob aelod o'r corff, yn darfod, yn diflanu. Choelia i ddim sut beth ! Mae'n well genyf gredu Paul—"Er llygru ein dyn oddi allan," &c. Nid yw hanes dadblygiad y miliynau blynyddoedd gymerodd y Bod Mawr—y Duw doeth a da—i ddwyn dyn, coron y cread, i fodolaeth, i'w cymeryd yn ddiystyr.

Y Mae Diwedd Blwyddyn

yn adeg addas, ac yn adeg naturiol sydd yn arwain meddwl yr ystyriol i sylweddoli ar fuan draul amser. Nid yw ond megys ddoe er pan y daethom yma. Yr ydym yma heddyw, ond yn mha le y byddwn fory ? Os na allwn ateb am y fory, gallwn anturio rhoi ateb i ymholiad y bardd—"B'le byddwn mhen can' mlynedd ?" Gwyddom hyd at sicrwydd fod pob can' mlynedd yn newid trigolion y ddaear bron yn llwyr. Yn wir, cawn fod diwedd blwyddyn yn awgrymu mai brau ac ansicr yw einioes dyn ar y ddaear.

Clywn adrodd geiriau Alaw Goch—"Dyw amser ddim yn aros, mae wrth ei waith o hyd." Eto ni fedr neb ddweyd

Beth yw Amser

ynddo ei hun, er y deallwn rywbeth am ei waith, os ei waith yw y dygwyddiadau a gymerant le mewn amser. Desgrifir amser gan rywun fel rhywbeth tebyg i afon sy'n rhedeg i lawr yr oesoedd, a thrigolion daear o bob gradd ac o bob oedran yn llithro iddi yn barhaus—rhyw dri o bobl y byd, ebe nhw, bob eiliad, wyth ugain bob munyd, 9,600 bob awr, a bron yr oll o bobl y ddaear mewn can' mlynedd. Dylai ystyriaeth o hynyna awgrymu i ni wersi sobr a phwysig. Yn mha le yr ydym yn sefyll ? I ba le yr ydym yn myn'd ? Er llygru ein dyn oddi allan, a ydyw ein dyn oddi fewn yn cael rhywfaint o adnewyddiad o ddydd i ddydd ?

Ar Drothwy Blwyddyn Arall,

cyn ffarwelio a'r hen, cyn dechreu ar y newydd, gadewch i ni fwrw golwg yn ol ar yr un sydd ar fin ein gadael. Cawn ei dygwyddiadau yn amrywiol ac yn gymysg fel pob blwyddyn o'i blaen—y caru a'r priodi, y geni a'r marw, profiadau amrywiol, llawenydd a gorfoledd, tristwch a

[*Sylwedd Pregeth a draddodwyd yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, nos Sul, Rhagfyr 27, 1914, gan R.J.J.]

gofid a galar ; gobeithion a siomedigaethau fyrdd. Perthyn y rhai hyn i bob blwyddyn ; ond yn mhob blwyddyn cysylltant a gwahanol bersonau a gwahanol gymdeithasau. Nid i'r un teuluoedd y daw yr elw a'r colled, y geni a'r marw, bob blwyddyn ; ond bob blwyddyn galwant am gyffelyb gydymdeimlad—i gydlawenhau â'r rhai sydd yn llawen, a chydalaru a'r rhai sydd mewn galar.

WRTH FWRW GOLWG YN OL,

nid yr un pethau fydd yn ymgynyg i feddwl pob un. Dyma rai o'r prif bethau ddeuant i fy nghof i. Ni wnaf ond prin eu henwi :—*Home Rule* i'r Iwerddon, Dadsefydliad yr Eglwys yn Nghymru, Daeargryn yn Japan pan y dywedir i gan mil o fywydau gael eu colli, Llongddrylliad yr Empress of Ireland gyda cholli mil o fywydau, y Tsar o Rwsia yn diddymu deddf bwysig y Gwirodydd ar draul o yn agos i gan' miliwn o bunau i gyllid y deyrnas. Gwnaethpwyd hyn er mwyn symud y demtasiwn oddi ar ffordd y milwyr. Dywedir fod yr effaith yn gwbl y gellir ei ddymuno.

MARWOLAETHAU'R FLWYDDYN

Wele rai : Dyna'r Pab—yn hen fab—pen yr Eglwys Gristnogol luosocaf yn y byd, dywedir iddo dori ei galon wrth feddwl am y miloedd o'i eglwys ei hunan sydd mewn rhyfel a'u gilydd yn bresenol. Blinir y Pab presenol yn gyffelyb wrth feddwl mor fychan yw ei ddylanwad ef mewn cymhariaeth i'r hyn oedd dylanwad ei ragflaenydd wyth canrif yn ol. Gallai Pab y dydd hwnw a'i air osod terfyn ar ryfeloedd yn unig drwy orchymyn. Heddyw ni wrendy y naill blaid na'r llall ar ei orchymyn ef.

Dyma ychydig enwau eraill, fe all pob un yn ddiameu ychwanegu at y rhif,—Earl Roberts, enw adnabyddus i bawb, awdwr yr erthygl gyntaf yn yr *Hibbert Journal* am Hydref diweddaf ; Syr Edward Anwyl, o Goleg Aberystwyth ; Lord Merthyr, y diweddaf, mor bell ag y gwn i o ysgolheigion Taliesin ab Iolo Morganwg ; Syr Marchant Williams, un o ysgolheigion Gwilym Marles ; allan o'n enwad ein hunain, gallwn enwi yr Anrhydeddus Joseph Chamberlain, un a lanwodd le mawr yn hanes ein gwlad un amser ; Syr Edward Wilfrid Lawrence, un a feddai gyfoeth mawr, a chanddo galon fawr i'w ddosparthu lle gwelai angen ; Cyrnel Thomas Phillips o Aberdar, aelod gwerthfawr yn Highland Place ; ac i ddod yn nes adref eto, rhaid peidio anghofio ein cyfaill Levi Phillips, aelod a diacon ffyddlon a gwerthfawr am hir flynyddau o eglwys yr Hen Dy Cwrdd.

Ond yr un peth mawr sydd wedi taflu pob peth arall i'r cysgod yw y rhyfel. Mae y rhyfel yn cyffwrdd a phawb yn mhob man. Ar ol ugain canrif o Gristnogaeth yr ydym wedi ein goddiweddyd gan y

RHYFEL MWYAF ECHRYSLAWN,

mwyaf dinystriol, a mwyaf gwaradwyddus a welodd y byd erioed. Gofynir yn fynych, ac mae'r gofyniad wedi codi yn naturiol—Beth fu'r achos? Yn awr, y mae achosion o ddau fath—rhai uniongyrchol a rhai anuniongyrchol. Yr achos uniongyrchol i Brydain gymeryd rhan yn y rhyfel oedd ei bod hi a Ffrainc *a Germani* wedi llaw-nodi ymrwymiad i amddiffyn Belgium os gwneid ymosodiad arni, ac i Germani dori ar yr ymrwymiad gyda'r unig esgus—yr unig *apology*—apology ei Changhellydd Ymerodrol, Von Hollweg nad oedd yr ymrwymiad yn ddim ond scrap o bapur. Yr oedd y gwledydd oll, fodd bynag, fwy neu lai yn llawn o ddefnyddiau tân yn flaenorol, defnyddiau oedd wedi bod yn graddol gasglu am flynyddau, fel nad oedd eisieu ond dodi matsien i osod yr oll yn wenfflam. Mehefin 28, llofruddiwyd y Tywysog Ferdinand, etifedd Coron Awstria a'i wraig, canlynwyd hyny gan ymosodiad Awstria ar Serbia, dygodd hyny Rwsia i'r maes; yna cawn Germani, Ffrainc, Lloegr, Belgium, Japan a Twrci, un ar ol y

llall yn rhuthro i'r gad. Gwnaeth Syr Edward Grey bobpeth a allai i gadw heddwch. Dywedodd y gwnai Ewrop ddeibyn unrhyw gynllun a ystyriai Germani yn bosibl, os gwnai Germani ond yn unig "wasgu'r botwm" er mwyn heddwch. Ni wasgwyd y botwm. Ni symudodd Germani gymaint a bys i'r pwrpas hyny, er y byddai'r awgrym lleiaf oddi wrthi hi yn ddigon i rwystro y rhyfel.

YN RHYFEL 1870

gorchfygodd Prwsia Ffrainc a sicrhaodd unoliaeth Germani. Byth oddi ar hyny y mae wedi parhau i gymeryd gwynt, ac wedi meddwi ar ei llwyddiant. Tybia fod Tynged y Byd yn gynar neu yn ddiweddar i ddyfod i'w dwylaw hi. Gwrthrych penaf ei chenfigen yw Prydain, a hyny, ebe hi, am fod un rhan o bump o arwynebedd y ddaear yn ei meddiant, a hyny drwy ladrad, tra cyfyngir hi fel nad oes ganddi le i eangu ei therfynau. Anogir hi gan ei phroffeswyr i ymysgwyd ac i gymeryd meddiant o'i hiawnderau. Nid wyf yn ameu mawredd dysg y proffeswyr hyn, ond yr wyf yn ameu yn fawr a ydynt wedi bod yn ddoeth bob amser. Fel dynion galluog a dysgedig ni allent lai na dywedyd llawer o bethau da, a diolch am hyny; ond yn anffodus y maent wedi dywedyd llawer o bethau heblaw, a'r pethau heblaw hyny sydd wedi cael sylw mwyaf y cyffredin. Fe ddewisa pob un yn ol yr hyn fydd yn siwtio ei ddymuniad a'i amcan ei hun.

Cafodd y Germaniaid yn Frederick Nietzche athraw wrth ei bodd, un oedd yn cyfarfod yn hollol a'u hyspryd uchelgeisiol. Os oedd ei addysg yn gymysglyd ac weithiau yn anghyson a'i hunan, nid oedd waeth am hyny, gallent hwy ddewis yr hyn oedd yn siwtio eu hamcan. Y mae llawer o'r hyn a ddywed am y Superman—Goruchddyn—y sonia gymaint am dano, yn gyfiyw y gallwn bawb gytuno yn ei gylch; er enghraifft, mai da yw i ddyn fod yn gryf ac yn gadarn o gorff, ond amheua llawer o honom mai cadernid corff yw y prif beth a berthyn i ddyn. Y Superman yw ei ddelfryd uwchaf o ddyn y dyfodol, a thuag at ddwyn hwnw i fodolaeth, rhaid i bob peth arall gael ei fwrw ar y naill du. Gan nad beth yw'r ffaith, dyna ddarlleniad y German o addysg Nietzche—mae'r unig foesoldeb yw Gallu, Nerth, *Force*, Might is Right; yr un yw ag a osodir allan yn yr hen ddiareb Gymreig—Trechaf treisied, gwanaf gwaedded. Druan a Dr. Watts, ni phwysai efe fawr yn nglorianau y bobl hyn. Ond ni chredai efe athrawiaeth o'r fath. Ebe fe—

Were I so tall to reach the pole,
And grasp the ocean in my span,
I must be measured by my soul—
The mind's the standard of the man!

I Nietzche, y mwyaf o bob llygredigaeth ellir ei ddychmygu yw Cristnogaeth—ei syniad ef am Gristnogaeth wrth gwrs—ac er mwyn gwrthwynebu ei dylanwad rhaid meithrin yr elfen fwystfilaidd sydd yn y dyn, fel ag i'w wneud ef yn greadur mwy cyflym, mwy cyfrwys, mwy dynol, ac wrth "fwy dynol" golyga yr hyn feddyliwn ni wrth lai dynol, neu fwy annynol. Ebe fe—Nid oes amheuaeth nad yw dyn o hyd yn dyfod "yn well," ac yn hynyna y gorwedd tynged Ewrop, canys gydag ofn yn y dyn, mae y bwystfil rheibus ynddo yn myned i golli, fel y mae cariad a pharch at wroldeb, yr ewyllys am wroldeb yn myned i golli hefyd.

Desgrifir Nietzche fel gweledydd yn fwy nag athronydd. Fe ddywed bethau eithafol, ac fe ddywed bethau anghyson a'u gilydd, a dywedir fod syniadau rhai o'i ddysgyblion yn cael eu priodoli weithiau iddo ef. I Treitschke y perthyn yr anrhydedd, medde nhw, o osod tipyn o drefn ar addysg Nietzche, ac i'r milwr Bernhardi y perthyn yr anrhydedd penaf o fod wedi trwytho meddwl milwrol Germani ag athroniaeth Treitschke. Yn ei lyfr gyhoeddwyd yn 1911, rhydd Bernhardi ei gynllun sut i gario allan

y rhyfel nesaf pan y cymerai le. Y peth cyntaf oedd gorchfygu Ffrainc, wedi hyny Rwsia, yna delai tro Prydain, &c., &c. Treiwyd y cynllun, ond ni allai Belgium gytuno. Darfu i Belgium drwy ei dewrder a'i gwroldeb dihafal dori ar y cynllun, a rhwystro'r Caiser fyned i Paris, na chael ei giniaw Nadolig yn Buckingham Palace.

"The best laid schemes of mice and men,
Gang aft agley!"

Y mae'r German yn ei dyb ei hun o fwy pwys na neb arall, a rhaid i bawb a phob peth roddi ffordd o'i flaen ef. Nid edwyn efe un ddeddf ond ei ewyllys ei hun. Ebe Bismarck unwaith—Nid yw tynged Cristnogion mynyddoedd y Balkan ddim gwerth esgyrn un o filwyr Pomerania (rhan o Germani). Dywedir fod Treitschke a'i frodyr wedi arllwys afonydd o lysnafedd brwnt ar draws pob peth Prydeinig. Dyma fel y darllenant hwy yr efengyl newydd,—Clywsoch ddywedyd, Gwyn eu byd y rhai addfwyn; ond yr wyf fi yn dywedyd, Gwyn eu byd y rhai dewrion, canys hwy a wnant y ddaear yn orsedd iddynt eu hunain. Clywsoch ddywedyd, Gwyn eu byd y tangnefeddwyr; ond yr wyf fi yn dywedyd, Gwyn eu byd gwneuthurwyr rhyfel, canys hwy a elwir, os nid yn blant Jehofah, yn blant Odin, yr hwn sy'n fwy na Jehofah. Y mae Corsica wedi concro Galilea—milwriaeth wedi gorchfygu Cristnogaeth. Gawn ni ofyn yn sobr, Ai Louvain ynte yw y gair diweddaf mewn gwareiddiad? Na, ebe Belgium. Na, ebe Ffrainc. Na, ebe Rwsia. Na, ebe Prydain drwy enau ei Phrif Weinidog—"Yn hytrach na bod yn dyst distaw o fuddugoliaeth drallodus gormes bwystfilaidd ar ddeddf, ac ar ryddid, byddai'n well genyf wel'd ein gwlad hon yn cael ei dileu allan o dudalenau hanes." Ie, Na, ebe'r holl fyd ond Germani ei hunan.

Yn y cyfamser mae y rhyfel yn myn'd yn mlaen—miliynau yn ben yn nghad yn cigyddio eu gilydd, a miloedd yn cael eu clwyfo a'u lladd—na wyr y mwyafrif mawr o honynt ddim paham—calonau yn cael eu rhwygo, a theuluoedd yn cael eu gosod mewn galar, cyfoeth yn cael ei ddinystrio, a gwledydd byd yn cael eu tlodi ac

Oll i Beth?

Oll i benderfynu unwaith ac am byth, ni a obeithiwn, pa un ai gormes neu ryddid, iawn neu aniawn—might or right—sydd i lywodraethu yn y dyfodol. Mae rhywun wedi galw y rhyfel hwn yn "Holy War," ac wedi dwyn enw Duw i fewn iddo. Edrychwn na fyddwn ni yn gwneud Duw yn gyfrifol am gamwedd dyn. Ac eto, rhaid yw cofio nad yw Duw ddim yn mhell, ac yn gynar neu yn ddiweddar fe geir yr Iawn a'r Da yn ymwthio i'r wyneb a chydwybod yn cael ei derchafu i'r orsedd.

Er y dinystr a'r difrod sydd yn canlyn ynfydrwydd a ffolineb dyn, eto nid allwn ni ddim llai na chredu fod Duw o hyd yn dal gafael ar awenau ei lywodraeth, ac y dwg bethau eto yn gynar neu yn ddiweddar i ryw fath o drefn. Yr anhawsdra mawr o hyd yw darostwng y dyn gyda'i ewyllys rydd i'r cyfeiriad hwn. Pan ddel hyny gallwn obeithio cael gweled y Da yn cymeryd ei le ei hun unwaith eto.

Er i'r Drwg dros amser lwyddo
Eto'r Gwir o hyd sydd ben;
Er i'r Da gael myn'd i'r grogbren
Ac i'r Drwg gael gorsedd wen:
Eto ceir y Grogbren hono'n
Llywio holl ddyfodol dyn,—
Fe saif Duw tu fewn i'r cysgod
Ac fe wylia'i eiddo'i hun.

Yn yr argyhoeddiad o wirionedd ac o werth mawr y syniad yna, dymunwn esgyn ar adenydd Gobaith, ac yn yr yspryd a berthyn i dymor y Nadolig, i ymwroli fel y gallwn edrych yn mlaen yn ffyddiog at yr amser gwell sydd ar ddyfod. Carem gredu fod y rhyfel presenol yn rhyfel i derfynu rhyfel—a war to end war—ac na welir ei debyg byth ar ol hyn.

Yn y man cymer canmlwyddiant

Heddwch le rhwng Unol Dalaethau Amerig a Phrydain Fawr, a'r Sul nesaf, dalier sylw bydd prif genedloedd y byd yn cydgwrdd i gynal Dydd o Weddi i ddymuno llwyddiant Teyrnas Tywysog Tangnefedd — Teyrnas Cyfiawnder a Chariad ac Ewyllys Da, Teyrnas, pe cai chwareu teg, a wnai glymu teyrnasoedd y ddaear yn nghyd yn ysbryd cariad brawdol—i helpu ac i wasanaethu eu gilydd. A gawn ni i gyd wneud ymdrech i bresenoli ein hunain yn brydlon y Sul nesaf—am 11 a 6—i weddio Duw am lwyddiant ei Deyrnas. Fel hyny, ar ol yr holl lygru a wneir ar y dyn oddi allan, gallwn ddisgwyl yn obeithiol am gael gweled yr amser pan yr adnewyddir y dyn oddifewn o ddydd i ddydd.

YMWELIAD A'R ISELDIROEDD.

Dymunem dreulio wythnos neu ragor yn Ostend, gan ein bod yn dechreu dyfod yn gyfarwydd â'r lle, ac yn gallu ffeindio ein ffordd oddi amgylch ; ond i'r teithiwr y mae amser yn beth pwysig. Felly rhaid iddo gadw ei ddau lygad yn agored a myned rhagddo mor gyflym ag y medro. Yr oedd ein taith gyntaf ar dir Belgium rhwng

OSTEND A BRUGES,

a chymerodd oddeutu haner awr i ni fyned gyda'r trên. Yr oedd y daith yn ddyddorol dros ben, gan fod yr olwg ar y wlad mor wahanol i ddim ag oeddym wedi weled yn yr ynys hon. Nid oedd yr olygfa yn hollol newydd i mi gan fy mod rai blynyddau cyn hyny wedi pasio drwy ran o Holland. Yr oedd yn gynhauaf medi, ac yr oedd y ffermwyr yn ddiwyd wrth eu gwaith. Yr oedd yn amlwg hefyd eu bod wedi bod yn ddiwyd iawn yn amser hau, fel y profai'r cnydiau trymion ar y meusydd. Gan nad oedd cloddiau yno ymddangosai'r holl wlad fel un maes eang, wedi ei drefnu yn hardd mewn patrwn o aur a gwyrddlesni. Yr oedd mwy o amrywiaeth yno nag a welir yn y wlad hon. Yn un peth yr oedd llawer o dir o dan *beetroot*, o'r hwn y gwneir siwgr. Ymddangosai y tir yn hynod lân a rhydd oddiwrth chwyn. Yr oedd y wlad mor wastad a chrempogen, yr hyn a wnai yr olygfa yn dra eang. Oni fod braidd yr oll yn newydd i mi byddai y cyfan yn dra undonol. Yr oedd golwg dra rhamantus ar y ffermdai a'r tai allan perthynol iddynt, y rhai oeddynt braidd i gyd yn dra hynafol. Yr oeddynt gan mwyaf yn yr arddull Fflemingaidd gyda'u simneiau mawrion a'u piniynau uchel yn y ffrynt. Gwelir tai o'r un arddull mewn rhai manau yn Mro Morganwg a Lincolnshire. Tynid ein sylw hefyd gan y nifer fawr o felinau gwynt sydd yn britho'r wlad. Yno y maent ar waith ddydd a nos yn codi dwfr o'r tir i'r camlasau, neu byddai yr holl wlad yn gors cyn bo hir. Cyn ymadael ag Ostend yr oeddym wedi ystwytho ein gwybodaeth o'r Ffrancaeg, i'r graddau y gallasem ofyn am docynau yn yr orsaf yn yr iaith hono ; ac erbyn cyrhaedd Bruges yr oeddym yn ddigon hyddysg i ofyn am fwyd a llety. Byddai yn dda pe byddai yr ysgolheigion yn Ysgolion Uwchraddol Cymru yn cymeryd rhybudd oddiwrth gamgymeriad y Cymro unieithog hwnw yn Paris. Un dydd pan bron marw o newyn aeth i mewn i

siop ddeintydd gan roddi ei fys yn ei ben i ddangos fod eisieu bwyd arno. Er ei siomedigaeth gosododd y deintydd ef mewn cader a thynodd un o'i ddanedd! Ni ddaeth anffawd o'r fath yna i neb o honom ni. I'r gwrthwyneb gwelsom y Belgiaid yn foneddigaidd iawn a pharod i'n cynorthwyo. Wele ni o'r diwedd yn Bruges, Brugge yn iaith y Fflemingiaid, hyny yw

Dinas y Pontydd.

Gelwir y lle felly am fod camlas yn nghanol braidd bob heol, a chroesir y dwfr-ffosydd hyn gan 135 o bontydd. Y mae golwg hynod hynafol ar y ddinas. Mae y prif adeiladau yn gystal a'r tai anedd goreu, braidd i gyd yn yr arddull Gothaidd, ac y maent yn hynod ddymunol a destlus. Yr oeddynt wedi cael eu harbed braidd i gyd nes y daeth byddinoedd barbaraidd y Caiser i'w dinystrio. Ar un amser yr oedd Bruges yn ddinas bwysig iawn mewn ystyr fasnachol ac hefyd fel prifddinas Gorllewn Flanders. Pan yr oedd fwyaf blodeuog yr oedd ei phoblogaeth yn ddau can mil. Cysylltir hi â'r môr gan ddwy gamlas o ddyfnder digonol i'r llongau mwyaf. Y mae yr olwg ar y ddinas yn debyg iawn i'r hyn ydoedd pan yr oedd y Frenhines Bess ar orsedd Prydain Fawr dros dri chan' mlynedd yn ol. Yr amser hwnw yr oedd adeiladwyr o bob crefft yn caru eu gwaith ac yn ei wneud yn drwyadl fel yn ngolwg Duw. Ystyrir Neuadd y Dref yr adeilad mwyaf tlws yn yr holl ddinas. Gorphenwyd ei hadeiladu yn y flwyddyn 1377, hyny yw yn agos i bum canrif a haner yn ol. Ar amser fy ymweliad nid oedd yr un anaf i'w weled arni; ond y mae lle i ofni nad yw yn awr yr hyn ydoedd y pryd hwnw. Y mae yn yr arddull Gothaidd wedi ei cherfio a'i haddurno yn y modd mwyaf cywrain. Ar y tu allan y mae wyth a deugain o faen gerfluniau o bendefigion Flanders, a thu fewn mae arluniau yn cofnodi digwyddiadau pwysig yn hanes y genedl. Er engraifft y mae yno bictiwr nodedig o waith yr arlunydd Dobbclearc yn cofnodi darganfyddiad corff Siarl y Dewr, ar ol brwydr Nancy. Yn y ddinas hon hefyd cedwir llyfrgell y ddinas yr hon sydd yn cynwys llawer o lyfrau ac ysgrifau gwerthfawr. Priodol iawn y galwai y diweddar Frenin Leopold Bruges ei "amgueddfa," gan fod cynifer o drysorau cywrain a hynafol yno.

Gerllaw Neuadd y Ddinas y mae y

Llys Barn,

yn yr hwn y mae trysorau anmhrisiadwy yn y Celfi Cain. Felly y mae hefyd gyda'r Amgueddfa. Yno y mae engreifftiau o waith y ddau arlunydd Van Eyck y rhai a gychwynasant yr arferiad o baentio pictyrau mewn olew yn y bumthegfed ganrif. Cyn eu hamser hwy defnyddid gwyn ŵy yn lle olew. Yr oedd Hans Memling hefyd yn perthyn i'r cyfnod. Un o'r arluniau mwyaf tarawiadol o'i eiddo ef yn yr Amgueddfa ydyw ei bictiwr o Sant Christopher yn cario Crist yn ffurf baban ar ei gefn drwy afon fawr. Dywed traddodiad am y sant hwn ei fod o daldra a chryfder anghyffredin, ond nad oedd ganddo dalent ddisglaer yn yr un cyfeiriad arall. Un o bobl

Yr Un Dalent

ydoedd. Er hyny yr oedd yn awyddus iawn i wneud ei hun yn ddefnyddiol fel canlynydd Iesu Grist. Gan nad allasai bregethu cyflwynodd ei hun i'r gwaith o gario pererinion i Rufain ar ei gefn dros yr afonydd lle nad oedd Pontydd. Aeth yn mlaen â'r gwaith hwn am dymhor, ac un diwrnod fel y cludai fachgenyn dros ryw afon, teimlodd bwysau anarferol, trymach na'r trymaf oedd wedi bod ar ei gefn hyd yn hyn. Pan oedd bron suddo dan ei faich, dywedodd y plentyn wrtho pwy ydoedd, ac achubodd ei gymwynasydd rhag boddi. Ar ol hyn gelwid ef yn Christopher, hyny yw Cludydd Crist. Dyna fel y dysgid yn yr hen amser pa fodd y gall y gwr o un dalent wneud ei hun

yn ddefnyddiol a derbyn bendith y nefoedd am ei waith.

Ymwelsom hefyd a Chlafdy St. Ioan, lle y mae llawer o bictyrau godidog Hans Memling. Dywedir iddo anrhegu y Clafdy â'r arluniau gwerthfawr hyn mewn diolchgarwch i'r chwiorydd, y lleianod, am ei ddwyn yn ol i iechyd pan yn glaf. Yn yr adeilad hwn y mae blwch mawr a elwir Coffr St. Ursula, wedi ei addurno â'r arluniau mwyaf prydferth. I'r Cymro y mae y traddodiad yn nghylch y Santes hon yn dra dyddorol. Yn yr holl fyd, mae yn debyg nad oes ond dwy eglwys wedi eu cysegru iddi, sef Llangwyryfon yn Sir Aberteifi a St Ursula yn Cologne, yn Germani. Yr oedd yn ferch i frenin Prydeinig, a chan ei bod wedi addunedu y rhoddai ei bywyd yn gyfangwbl i wasanaeth Crist gwrthodai gais tywysog paganaidd am ei llaw. Er mwyn dianc o gyrhaedd y tywysog a phaganiaid ereill, aeth ar bereirndod i Rufain drwy Cologne a Switzerland, gan gymeryd un fil ar ddeg o wyryfon Cristionogol gyda hi. Wedi cael derbyniad groesawgar gan y Pab dychwelasant yr un ffordd ag yr aethant, a digon tebyg y bwriadent ymsefydlu yn Cologne lle yr oedd y boblogaeth wedi mabwysiadu Cristionogaeth. Ond pan gyrhaeddasant yno yr oedd y ddinas a'r holl boblogaeth yn llaw Attila yr Hun, a'i fyddin greulon, y rhai y mae y Caiser a'i ganlynwyr yn geisio efelychu yn awr. Cafodd y Santes a'i mintai hardd a diniwed o Gristionogion ieuainc eu merthyru, ac y mae eu hesgyrn i'w gweled hyd heddyw mewn cypyrddau yn Eglwys St. Ursula yn Cologne, â'r hon yr ymwelais rai blynyddau yn ol.

Un o'r gwrthrychau mwyaf dyddorol yn Bruges ydyw y Clochdy, am yr hwn y canodd y bardd Longfellow mor swynol :—

Yn y farchnadle y saif Clochdy Bruges
Hynafol a llwydaidd ydyw ef ;
Teirgwaith fe'i llosgwyd a theirgwaith fe'i codwyd,
Ac eto mae'n gwylio dros y dref.

Ni wyddis yn iawn pryd yr adeiladwyd ef gyntaf, ond gellid dweyd fod rhanau o hono o leiaf rhwng saith ac wyth canrif o oedran. Y mae yn 354 troedfedd o uchder ; a gwaith tra chaled yw esgyn pedwar cant o risiau yn olynol ar ddiwrnod tawel a gwresog. Er hyny y mae yr olygfa o ben y tŵr yn werth yr ymdrech. Ceir gweled yr holl ddinas yn gorphwys ar y ddaear fel cwrlid o batrwn hardd a'r wlad yn ymestyn i bob cyfeiriad i bellder mawr. Ymgyfyd y *poplars* ar lan y camlasau fel rhengoedd o filwyr cawraidd yn amddiffyn cnydiau'r maes. Yn y tŵr y mae wyth a deugain o glych o felusder di-gymhar, a phob chwarter awr ceir clywed eu miwsig hyfryd. Yn yr hen amser yr oedd y tŵr o ddefnydd mawr i wylio y ddinas pan y delai y Germaniaid barbaraidd fel locustiaid i anhreithio'r wlad a thrawsfeddianu cyfoeth y dinasoedd. Yr oedd gwyliedyddion ar y tŵr ddydd a nos, ac os gwelent y gelyn yn dod yn y pellder canent y gloch ryfel - y *tocsin bell*, i alw'r dinasyddion yn nghyd i amddiffyn eu teuluoedd a'u heiddo. Yr oedd yn amser cyffrous iawn y pryd hwnw, ond nid mwy felly na'r dyddiau presenol.

POB PARCH I'R BELGIAID !

Y maent wedi dangos gwrhydri mawr i gadw eu dinasoedd cyhyd rhag cael eu dinystrio gan eu gelynion.

Y mae eglwysi Bruges hefyd yn hardd iawn. Aethum yn gyntaf i weled yr Eglwys Gadeiriol yr hon sydd hynod gyfoethog mewn cerfwaith coed a maen, ac mewn arluniau costfawr. Y mae y trysorau hyn yn rhy luosog i fanylu arnynt. Digon yw dweyd fod pob peth wedi ei wneud i foddio'r llygad ac apelio at y galon. Profa'r pethau hyn fod y Pabyddion yn parchu eu crefydd gymaint fel ag i wneud aberth mawr drosti. Yr wyf o'r farn y byddai er lles ysprydol Protestaniaid y wlad hon pe dangosent fwy o barch tuagat eu lleoedd o addoliad i'w gwneud yn hardd, cysurus a dyrchafol.

Y nesaf mewn harddwch at yr Eglwys Gadeiriol yw *Notre Dame*, yr hon yn Nghymru a elwir yn Llan-Fair. Y mae yn gysegredig fel y mae yr enw yn arwyddo, i Mair mam Iesu. Y mae yno gerflun hardd dros ben o Mair gan y cerflunydd enwog, Michael Angelo. Y mae yn yr Eglwys hon hefyd lawer o gerfluniau ac arluniau hanesyddol y rhai a gynorthwyant y trigolion i feithrin yspryd gwladgarol. Mae yn bryd i ninau y Cymry ddeffro a gwneud rhywbeth i gofnodi bywydau ein harwyr cenedlaethol fel Llewelyn, Owen Glyndwr a llawer ereill – ein gwir wladgarwyr, y rhai

"Dros ryddid gollasant eu gwaed."

Fel y gŵyr y rhyw deg y mae Belgium yn enwog am ei *laces*. Cyn y rhyfel ofnadwy presenol enillai canoedd lawer o wragedd a merched Bruges eu bywioliaeth wrth y gwaith cywrain o wau *laces* y rhai a gaent farchnad barod dros yr holl fyd. Y mae llawer o'r gweithwyr diwyd hyn yn awr yn ffoedigion yn y wlad hon. Dywedir fod rhai darnau o'r *laces* mwyaf costfawr yn cymeryd blynyddau i'w cwblhau.

Yn Bruges fel mewn dinasoedd pabyddol ereill yn Belgium a Germani y mae sefydliad hynafol tra dyddorol a elwir y *Beguinage*. Math o gorfforaeth o fenywod ydyw yn debyg yn ei amcan i eiddo'r *Nuns* yn y wlad hon, ond gwahanol am nad yw yr aelodau yn rhwymo eu hunain ag unrhyw adduned allanol. Gellir eu hadnabod oddiwrth eu gwisgoedd syml o ddefnydd tywyll. Gwnant lawer iawn o ddaioni drwy edrych ar ol y cleifion a'r anghenus. Gwelir llawer o honynt yn gweini ar eu cydgreaduriaid yn y clafdai.

Er mai Pabyddiaeth yw crefydd awdurdodedig y Belgiaid, sicrhawyd fi fod llawer o'r bobl yn dal syniadau mwy cydweddol a gwybodaeth ddiweddar. Yn Bruges teimlwn pe cawsem gyfuniad o zel a defosiwn y Pabydd a rhesymoldeb egwyddorion yr Undodwr y cyflenwid angen ysprydol yr oes bresenol i raddau pell.

E. CEREDIG JONES.

(*Pw barhau.*)

CRED UNDODIAID.

I.

Nad oes ond Un Duw, Tad pawb dynion, awdwr a chynaliwr y bydysawd, yr hwn gâr Ei blant yn wastad a'r hwn sydd bob amser yn ddaionus.

Y SYNIAD AM DDUW.

1. Gelwir Undodiaid weithiau yn anghredinwyr. Dengys yr enw ddefnyddir genym fod hyn yn anghywir. Golyga a dweyd y lleiaf, gred yn modolaeth Duw. Hon yw sylfaen ein crefydd. Dyna'r safbwynt o ba un y cychwynwn.

2. Cydnabyddir bellach fod rhyw fath o gred yn Nuw yn gyffredinol. Hyd y gwyddom, nid oes yr un genedl yn, nac wedi bodoli erioed heb fod ganddi amgyffred, mwy neu llai eglur, am y Bod Goruchaf. Yn ystod y blynyddau diweddaf cawn fod haneswyr, cenhadon, ymdeithwyr ac ereill wedi bod yn casglu ffeithiau o wahanol gyfeiriadau, ac un o'r gwirioneddau cyntaf i ymddangos oedd cyffredinolrwydd y syniad am Dduw.

3. Cofier nad yw hyn yn brawf diymwad fod y syniad yn gywir. Eto i gyd y mae yn ymresymiad y dylid ei gymeryd i ystyriaeth. Peth arall, mae yna gymaint, os nad mwy, o anhawsderau ar ffordd yr hwn wna wrthod y syniad o Dduw, ag sydd ar ffordd yr hwn wna ei dderbyn. Os oes yna boen yn y byd, mae yna hefyd bleser. Os oes yna dywyllwch mae yna hefyd oleuni. A pha fodd mae i ni gyfrif am y greadigaeth? Gwadu Duw sydd un peth; gwrthod syniadau anheilwng am dano o waith dynion sydd beth arall. Mae amrywiaeth barn yn naturiol ac i'w ddisgwyl.

4. Pan ofynir o ba le mae y syniad am Dduw wedi tarddu ceir fod yna lawer o esboniadau gwahanol. Yn ol un ofn yw ei darddle; yn ol arall anwybodaeth. Gall fod y pethau hyn, a dylanwadau cyffelyb, wedi cael llawer o effaith ar y syniad, ond ni fedrant gyfrif am dano yn gyfangwbl. Mwy tebygol yw ei fod yn deilliaw oddiwrth natur fewnol y ddynoliaeth. Y mae yn angenrheidrwydd meddyliol, moesol ac ysbrydol.

Datblygiad y Syniad.

1. Mae gwahanol farnau am Dduw wedi bodoli yn mhob cyfnod. Anhawdd yw i ni heddyw edrych ar bethau drwy lygad a meddwl yr oesau boreuaf. Tybient fod i bob gwrthrych nid yn unig gorph ond hefyd enaid. 'Roedd pobpeth yn feddianol ar fywyd. Yn y Saesneg adnabyddir y gyfundrefn hon wrth yr enw *Animism*. Dilynir hi yn ddiweddarach gan Aml-dduwiaeth; ac yn ddiweddaf oll gan Un-dduwiaeth.

3. Ymddibyna y syniad sydd genym am Dduw ar lawer o ystyriaethau. Yn mhlith ereill gallwn feddwl am natur ac ansawdd y wlad, cyflwr cymdeithasol y bobl a'r diwylliant i ba un fyddant wedi gyrhaedd. Yn aml ceir yn ein dull o siarad am Dduw adlewyrchiad o'n bywyd beunyddiol. Yn y Beibl sonir am dano fel Tarian, Twr, Craig, Barnwr, Bugail, Brenin. Gwna'r enw weithiau ein cynorthwyo i gael gafael yn yr amgylchiadau o dan ba rai y rhoddwyd iddo fodolaeth.

3. Tad yw yr enw apelia gryfaf at Undodiaid. Hwn hefyd ddefnyddid fynychaf gan Iesu. Gwnawn ei dderbyn am ei fod yn mynegu y goreu y gwyddom hyd yn hyn am dano. Dysg profiad ni nad oes yr un berthynas mor agos a thyner a'r berthynas fodola rhwng y tad neu'r fam a'r plentyn. Nid yr enw sydd yn bwysig. Gwna unrhyw air arall y tro cyhyd a'i fod yn arwyddocau yr hyn sydd oreu yn ein datblygiad.

Undod Duw.

1. Nid dibrisio Trindodiaeth wnawn amcanu ato, yn gymaint a cheisio cefnogi Undodiaeth. Dyledswydd pawb o honom yw derbyn y syniad ymddddengys iddo ef yn gywir. Deil llawer, fodd bynag, mae peth peryglus yw gwahaniaethu oddiwrth y mwyafrif. Tybiant fod y grefydd Undodaidd yn oer a dideimlad. Camgymeriad yw hyn yn codi o ragfarn ac anwybodaeth. I mi mae meddwl am Dduw fel yr un holl-bresenol ysbryd yn llawn mor werthfawr ag yw meddwl am y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân i'ereill.

2. Wrth gredu yn Undod Duw ni wnawn aberthu dim sydd hanfodol i grefydd ysbrydol. Ar y llaw arall, gwnawn osgoi nid ychydig o'r dyryswch meddyliol sydd yn gysylltiedig a'r Drindod. Pa fodd y gall un sylwedd fod yn feddianol ar dri pherson sydd gwestiwn ag y mae gryn dipyn yn hawddach ei ofyn na'i ateb. Ni cheir y fath ddysgeidiaeth yn y Beibl (yn enwedig yn y Cyfieithiad Diwygiedig, yr hwn ni chynwysa 1 Ioan v. 7). Ond am Undod Duw, nid oes prinder profion drosto yn y naill na'r llall o'r ddau Destament. Yn enwedig y mae hyn yn wir am rai o'r Salmau, y Prophwydi, a Marc — yr Efengyl gafodd ei hysgrifenu gyntaf. Yn mhellach, mae'r syniad yn unol a rheswm ac a'r hyn wyddom am y byd allanol.

3. Ond i ddefnyddio'r gair yn ei ystyr eangaf mae'n bosibl fod Undodiaid yn fwy lluosog na'r un enwad

arall. Mae yna gorph helaeth o Gristionogion wnant dderbyn yr un athrawiaeth, er ei bod yn well ganddynt am y rheswm hwn neu y rheswm arall gael eu hadnabod wrth ryw enw gwahanol. Nid barnu ydym, ond galw sylw yn unig at y sefyllfa. Heb son am ereill ellid enwi dysgir Undod Duw gan yr Iuddewon a'r Mahometaniaid.

NATUR DUW.

1. Ond yr hyn sydd bwysicaf wedi'r cyfan yw nid y ffordd y siaradwn, ond y ffordd y syniwn am Dduw. Rhagorai Yahwe ar Baal, nid yn rhinwedd ei enw ond yn rhinwedd ei addoliad. Gwna Duw ddatguddio Ei hun i ni yn ol ein gallu i amgyffred am dano. Er syniad teilwng am Dduw y mae yn rhaid iddo fod yn syniad agored a goleuedig, cymeriad pur ac ysbryd addfwyn. Anturiaf ddweyd fod yna lawer i bagan pan ar ei liniau o flaen ei eilun, wedi dyfod mor agos at Dduw ag unrhyw Gristion yn ei Eglwys Gadeiriol.

2. Yr hyn bair anhawsder i lawer yw personoliaeth Duw. Caniatant y gellir meddwl am dano fel Gallu; ond beth am ei gariad, ei ddaioni a'i wybodaeth? Materion caled i'w trafod yw y rhai hyn, ac nid yw y wobr yn ddigon am y draul. Un peth sydd eglur. Nis gall Duw fod yn îs na'r uwchaf sydd wedi ymddangos fel gwaith ei fysedd. Dim llai; ond gall fod yn anfeidrol fwy. Nid yw hyny yn unrhyw rwystr ar ffordd Cymundeb. Ein gwir awyddfryd yw ymberffeithio at yr hyn sydd eisoes yn Berffaith.

3. Heb gymeryd arnom i benderfynu pa un a yw Duw yn holl-alluog, yn holl-wybodol ac yn holl-bresenol—dibyna llawer ar yr ystyr roddwn i'r geiriau credwn am dano ei fod yn gyfiawn, yn drugarog a chariadlawn. Oddieithr hyn byddai ei addoli yn anmhosibl. Cynwysa y gair Tad y cyfan sydd arnom eisieu ei wybod am dano mewn perthynas i Dduw. Pa beth bynag sydd yn anghyson a hyn gwnawn ei wrthod heb unrhyw betrusder fel yn anheilwng o'i gymeriad.

(*Pw barhau.*)

RHAID DRINGO.

Allan o "Gemau Ceredigion."

Mae'r gneuen feddal, wèn,
Sy'n isel ar y pren,
Yn hawdd i'w chael dros ben,
Ond beth dâl hynny?
O'i mewn nid oes un mael;
Am gneuen werth ei chael,
Y gneuen euraidd hael,
Rhaid dringo i fyny.

Gall pawb yn ddigon rhwydd
Gael unrhyw sêdd a swydd
Fo'n gudd rhag heulwen llwydd,
Ond beth dâl hynny?
Mae'r byd 'run fath a'r berth,—
'Cheir ganddo ddim o werth
Heb ddringo â'n holl nerth,
Rhaid dringo i fyny.

Cledlyn.

YR ERYR A'R LLEW.

(*Dameg allan o'r Apocrypha 2 Esdras xi. 29—45 ; xii. 1—13.*)

Deffrodd un o'r penau oedd yn cysgu, sef yr hwn oedd yn y canol ; canys mwy oedd hwnw nag un o'r ddau eraill. Ac mi welais y modd yr oedd wedi uno y ddau ben eraill ag ef.

Ac wele y pen hwnw a drodd at y penau oedd gydag ef ac a fwytaodd y ddwy aden dan yr asgell oedd ar fedr teyrnasu. Ond y pen hwn a gadwodd feddiant o'r holl ddaear ac a lywodraethodd ar bawb oedd yn trigo ynddi, gyda gorthrymder mawr, ac yr oedd yn rheoli'r byd yn fwy na'r holl esgyll a fuasai.

Ac wedi hyny mi a edrychais, ac wele'r pen oedd yn y canol, yn ddisymwth nid ymddangosodd mwy, yr un ffunyd a'r esgyll. Ond yr oedd eto y ddau ben, y rhai oedd yr un ffunyd, yn rheoli ar y ddaear ac ar y rhai oedd yn trigo arni. Ac mi a edrychais eto, ac wele, y pen oedd o'r tu deheu a lyncodd y pen oedd o'r tu aswy.

Yna y clywais lef yn dywedyd wrthyf, Edrych o'th flaen a dal sylw ar y peth yr wyt yn ei weled.

Ac mi a edrychais ac wele megys llew wedi ei ymlid allan o'r coed yn rhuo, a chlywais ef yn anfon llais dyn at yr eryr, gan ddywedyd, Gwrando, mi a ymddiddanaf a thi ; a'r Goruchaf a ddywed wrthyt, Onid tydi yw'r hwn sydd yn aros o'r pedwar anifail, y rhai wnaethum i deyrnasu ar fy myd, fel y delai diwedd fy amseroedd drwyddynt hwy ?

A'r pedwerydd a ddaeth ac a orchfygodd yr holl anifeiliaid a aethai o'r blaen, ac a gafodd allu ar y byd gydag ofn mawr, ac ar holl amgylchoedd y ddaear gyda gorthrymder annuwiol lawer ; a chyhyd o amser a hyny y preswyliodd efe ar y ddaear yn dwyllodrus. A thi a fernaist y ddaear, ond nid yn ol gwirionedd. Canys blinaist y gostyngedig, briwaist yr heddychol, caseaist y rhai a lefarent wirionedd, ceraist gelwyddwyr, difethaist drigfaon y rhai oedd yn dwyn ffrwyth, bwriaist i lawr fagwyr y rhai ni wnaethant niwed i ti.

Am hyny y daeth dy drawsymddygiad i fyny at y Goruchaf a'th falchder at y Galluog.

Y Goruchaf hefyd a edrychodd ar ei amseroedd, ac wele hwy a ddarfuant, a'i oesoedd ef a gyflawnwyd.

Ac am hyny, nac ymddangos mwy, dydi eryr, na'th esgyll ofnadwy, na'th adenydd bychain ofnadwy, na'th benau creulawn, na'th swinedd niweidiol, na'th holl gorff ofer : fel y gallo yr holl ddaear ddadflino, a chael esmwythyd, wedi dianc oddiwrth dy drawsder di, ac fel y gallo obeithio barn a thrugaredd gan yr hwn a'i gwnaeth hi.

A dygwyddodd pan lefarodd y llew y geiriau hyn wrth yr eryr, mi edrychais, ac wele, y pen yr hwn oedd yn aros nid ymddangosodd mwy, a'r ddwy asgell, y rhai a ymosodasant i fyny i deyrnasu ; a'u teyrnas oedd fechan a llawn cythrwfl.

A mi a edrychais eto, ac wele, nid ymddangosasant mwy, a holl gorff yr eryr a losgwyd, fel yr ofnodd y ddaear yn fawr ; yna y deffroais i allan o flinder, a llewyg fy meddwl, ac o ofn mawr.

ADOLYGIAD.

Geiriadur Cymraeg a Saesneg, wedi ei olygu gan y Parch. J. Bodvan Anwyl, gyda rhagymadrodd [y diweddar] Syr Edward Anwyl. 1914.

Dymunwn gymhell y Geiriadur hwn gyda phleser i sylw darllenwyr YR YMOFYNYDD. Mae yn dda odiaeth—yn ol ei faint y gore yn yr iaith. Cyfeiriwn sylw arbenig at yr orgraff. Credwn y dylai gael derbyniad cyffredin. Ystyriwn y ddau ragymadrodd yn werthfawr, er nad ydym yn deall paham y mae yn Saesneg. Pe Saesneg a Chymraeg fyddai'r Geiriadur, gallem ddychmygu rhywfath o esgus dros hyny. Mae'r "sign †" yn awgrymiadol iawn ac yn dynodi geiriau sydd wedi myn'd allan o arferiad, y rhai oherwydd hyny y dylai ysgrifenwyr heddyw eu gochelyd. Fe'n hesgusodir am ddweyd ei fod ar rai prydiau yn cau allan rai geiriau sydd mewn arferiad cyffredin yn y Deheudir. Er enghraifft ni ddywed y Deheudir Hwda, Hwde, byth; ond Hwra, Hwre, bob amser. Carasem weled mwy o sylw yn cael ei roddi i eiriau cyfystyr (synonism)—megys gwneir gyda "llefaru, siarad," wrth roi'r gwir ystyr yn mlaenaf. Gyda llaw oni ellid cael gair ar sain y "Si" o flaen bogeiliad? Priodol ddigon fyddai i bawb allu dweyd Shibboleth yn ogystal a Sibboleth, yna ni fyddai raid si-arad am Si-encyn Si-on. Y mae'r Geiriadur fodd bynag yn werthfawr fel y mae, ond dysgwyliwn ychwanegiadau yn yr ail argraffiad pan ddelo allan.

S.N.S.

PHIOLAID O DDWFR.

Ebe'r Athraw, A phwy bynag a roddo i'w yfed i un o'r rhai bychain hyn, phiolaid o ddwfr oer yn unig yn enw dysgybl, yn wir meddaf i chwi, ni chyll ei wobr.—Matth. 10: 42. Beth all fod yr ystyr? Y mae rhywbeth yn hynod yn y geiriau—yn enw dysgybl. Yr oedd Hartley Coleridge yn credu na fuasai Iesu'n edrych ar y weithred yn ddim llai, pe na chysylltid ei enw ef a hi o gwbl. A ydyw Coleridge yn iawn? Onid gwneud y weithred o garedigrwydd oedd y peth mawr, diwallu angen un yn dioddef, gwneud cymwynas o galon? A oes rhagor na hynyna i'w olygu wrth yr ymadrodd. Pwy etyb?

Clywais unwaith am ferch fach yn myned i barti—parti pen blwydd aelod o'r teulu lle'r oedd yn myned. Mwynhaodd ei hunan yn fawr. A phan aeth adref dechreuodd adrodd wrth ei mam y gwahanol bethau oedd wedi gael. Gofynodd ei mam iddi, A ddaru i chwi ddiolch i'r ledi? Do, mami, ebe'r fach onest ddiniwed, ond anghofiais ddweyd wrthi. Mor debyg onide, i rai o honom ninau blant mwy? Derbyniwn y trugareddau, *teimlwn* yn ddiolchgar feallai, ond yn rhy fynych yr ydym yn anghofio *dweyd* Diolch.

A deimlai Dafydd yn ddiolchgar i'r tri chedyrn a beryglent eu hunain wrth fyned i bydew Bethlehem i nol dwfr iddo? Nid oes dim son iddo *ddweyd*

diolch. Dyma fel mae'r hanes :— A Dafydd a flysiodd, ac a ddywedodd, O pwy a rydd i mi ddiod ddwfr o bydew Bethlehem, yr hwn sydd wrth y porth, ac a'i cymerasant ac a'i dygasant i Dafydd : ac ni fynai Dafydd ei yfed ef ; ond efe a'i diod-offrymodd ef i'r Arglwydd : ac efe a ddywedodd, Na ato fy Nuw i mi wneuthur hyn. A yfaf fi waed y dynion hyn, a beryglasant eu heinioes ? Oherwydd mewn enbydrwydd am eu heinioes y dygasant ef : am hyny ni fynai efe ei yfed. Y tri chedyrn a wnaethant hyn. -1 Cron. 11 : 17, 18, 19.

Mae'r hanes am Syr Phillip Sidney i mi yn ddyddorol iawn. Nid oedd ond deuddeg ar hugain oed pan y clwyfwyd ef yn mrwydr Zutphen (1856). Pan y cludwyd ef o faes y rhyfel, yr oedd mewn gwendid mawr oherwydd colli cymaint o waed, a gofynodd am ddiacht o ddwfr ; ond pan yr oedd yn codi'r botel at ei wefusau, gwelodd filwr arall ar fin tranc, yn syllu arni gyda llygaid prudd, fe roddodd y botel yn ol, a dywedodd, Y mae angen hwna yn fwy na'r eiddof fi, rhoddwch hi iddo. Bu farw Syr Phillip yn mhen llai na mis - Hydref 15, 1856.

Un dda yw stori'r milwr o Abertawe :— Yr oeddwn yn y *trench*, pan y gwelais German clwyfedig heb fod yn mhell oddiwrthyf, ac yr oedd yn amlwg mewn cyfyngder. Meddyliais y gallaswn ei helpu. Rhuthrais tuag ato i wneud fy ngoreu. Ar hyny dyna fe'n codi ei ddryll i fyny ac yn saethu ataf. Gwelais ef yn annelu mewn pryd, plygais fy mhen a diengais. German oedd. Nid oeddwn yn teimlo un math o ddigofaint tuag ato. Gwn fod miloedd o honynt na wyddant yn y byd paham y maent yn ymladd. Nid oedd yn amser i oedi. Brysiais ato a dygais ef i le o ddiogelwch. Dodais ef yn y gwely a'r dillad yn gysurus am dano. Yn mhen ychydig sylwais ei fod yn anesmwyth, a meddyliais fod rhywbeth allan o le. Gofynais a oedd rhywbeth yn ei flino. Atebodd fod arno gywilydd ei fod wedi ceisio fy saethu, pan oeddwn i'n gwneuthur fy ngoreu i'w helpu ef a'i ddwyn i le o ddiogelwch.

MARWGOFION.

RHAGFYR 26, wedi cystudd maith, yn 40 mlwydd oed, Margaret, anwyl ferch Rachel Joshua, Brynbedw, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Brynhafod. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. John Davies, gyda chynorthwy y Parch. Mr. Roderick (T.C.), ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. E. Glyn Edwards, y gweinidog.

IONAWR 4, yn 56 oed, bu farw Evan Phillips, Felinban, ger Llanwnen. Ni fu yn gryf ei iechyd o'i febyd ; byr iawn fu ei gystudd olaf— ychydig gydag wythnos. Oherwydd ei wendid nid oedd yn alluog i fyned lawer o'i anedd-dy ; ond er hyn mwynhai gylch helaeth o gyfeillion ; a chan bawb a'i hadnabyddai perchid ef yn fawr. Gofalwyd am dano yn dyner iawn drwy'r blynyddau gan ei chwaer, Judith Davies, Unity ; ac yn ychwanegol, gadawodd chwaer arall a brawd, yn nghyd a nifer luosog o berthynasau agos mewn galar ar ei ol. Claddwyd ei weddillion dydd Iau canlynol yn Nghapelygroes, y gweinidog yn gwasanaethu.

IONAWR 11, wedi hir nychdod, yn 45 mlwydd oed, David Jones, 1, Mill Street, Llanbedr. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. R. C. Jones, ac yn y capel a'r fynwent gan y gweinidog. Gadawodd ei wraig yn weddw a phedwar o blant yn amddifad, y rhai a gyflwynwn i ofal y Tad goreu.

IONAWR 11, bu farw James Lewis, Heddgeidwad, Tregaron, yn 56 oed, yn nghlafdy Aberystwyth. Er nad oedd ei iechyd wedi bod yn dda er's cryn amser, eto byr fu ei gystudd olaf. Yr oedd yn alluog i ddilyn ei ddyledswydd y dydd Gwener blaenorol; ond y nos hono cymerwyd ef yn glaf; y Sul dilynol awd ag ef i Aberystwyth, lle y bu farw nos tranoeth. Genedigol oedd o Ffynonoer, ger Rhydygwin. Unodd a Heddlu Ceredigion pan yn 22 oed; a bu yn gwasanaethu fel heddgeidwad yn Mhontrhydfendigaid, Ceinewydd, Llandyssul, a Thregaron; ac yn mhob un o'r lleoedd hyn enillodd iddo ei hun barch diffuant y boblogaeth, ac ar yr un pryd bu mor ffyddlon yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau fel y dyrchafwyd ef i'r safle o Ringyll. Undodwr oedd o ran dygiad i fyny; a phan yn Llandyssul mynychai y Graig yn weddol gyson. Ar ol ei ymsefydliad yn Nhregaron, fodd bynag, ymunodd â'r Eglwys Sefydledig. Gadawodd briod, un mab (yr hwn sydd gurad yn Porth), a dwy ferch, mewn galar dwys ar ei ol. Dygwyd ei gorff i Dregaron dydd Mawrth, ac awd ag ef i'r eglwys, lle y cynhaliwyd gwasanaeth byr; gadawyd yr arch yn yr eglwys hyd dydd Sadwrn canlynol, dydd ei angladd; ar ol gwasanaeth yn yr eglwys, awd ag ef i fynwent Capelygroes, gyda nifer luosog o gyfeillion yn ei ddilyn – yn eu plith y Prif Gwnstabl ac oddeutu dwsin o'r heddlu. Gwasanaethwyd yn yr eglwys gan y Ficer; ac yn y capel gan y Parchn. J. Davies a Lewis Williams, a D. Evans (gweinidog y lle).

IONAWR 13, 1915, yn 15, Holford Terrace, Aberdâr, bu farw Mary Alice, gweddw Mr. Lewis Llewelyn, yn 49 oed, gan adael mab a thair merch i alaru eu colled. Y mae'r mab wedi uno a'r fyddin yn ddiweddar — y Glamorgan Yeomanry. Dydd Llun, y 18fed, gwasanaethwyd yn ty gan R.J.J. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llanwyno, yr offeiriad yn gwasanaethu.

Fold her, O Father! in thine arms
And let her henceforth be
A messenger of love between
Our sorrowing hearts and Thee.

IONAWR 15, bu farw Lizzie Anne Rees, merch Edward Rees, Cemetery Road, Aberdar, yn ddeg wythnos oed. Dydd Llun, gwasanaethwyd yn ty gan R.J.J., ac yn y Cemetery gan y Parch. E. T. Evans, Highland Place.

Duw a garai'r anwyl un
Ac a'i cym'rodd ato'i hun.

GWEDDI.

Caniata, O Arglwydd, yn yr amser presenol hwn o bryder ac o helbul, i ni allu rhodio yn deilwng o'n proffes Gristnogol. Dyro i ni oll i allu bod yn un mewn calon ac mewn meddwl i ddwyn y beichiau y mae'r rhyfel presenol wedi eu gosod arnom. Galluoga ni i ateb i alwad ein gwlad yn ol yr amryw-iol alluoedd a feddwn. Gosod yn mhell oddiwrthym bob diofalwch hunangar tuag at angenion eraill, a galluoga ni i barhau yn gwneuthur da i ogoneddu dy enw Di. Amen.

MANION AC HANESION.

CEFNCOED. — Cynhaliodd yr eglwys ei gwyl dê flynyddol dydd Iau, Rhagfyr 31. Darparwyd y wledd gan y boneddigesau canlynol — Mrs. J. R. Evans, Miss Harries, Mrs. Carrara Davies, Mrs. Watkins, Mrs. M. Jones, Mrs. Anthony, Miss Margery Davies, a Miss M. J. Jones. Daeth nifer luosog iawn o ddynion i fwynhau eu hunain, ac yr oedd yn bleser canfod yr arwyddion o foddhad oedd ar eu gwynebau tra yn eistedd wrth y byrddau huliedig. Wedi'r tê cafwyd cyfarfod adloniadol a chystadleuol yn y capel, dan lywyddiaeth y gweinidog. Yr oedd hwn eto yn gwrdd llwyddianus yn mhob ystyr, y ty yn llawn, a'r rhaglen yn hynod o ddifyrus a dyddorol. Arweiniwyd gan Mr. Lewis Edwards, yr hwn oedd ar ei wyliau o'r Coleg yn Mryste, ac i'r hwn y dymunwn bob llwyddiant yn ei yrfa golegol. Y beirniaid oeddynt: Cerddoriaeth, Mr. John Lewis, yr hwn sydd yn adnabyddus trwy'r cylchoedd hyn fel arweinydd canu campus; Llenyddiaeth, Mr. Cledlyn Davies, sef mab hynaf ein cyn-weinidog. Cyfeiliwyd yn fedrus iawn gan Miss Davies (cyfeilyddes y Gymanfa Ganu am y flwyddyn hon). Y Sul canlynol anrhegwyd nifer fawr o blant yr Ysgol Sul am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ddiweddaf.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Yn nghapel y Graig, nosau Sul, Tachwedd 29, a Rhagfyr 6, 1914, cynaliwyd dau gyfarfod o adrodd, datganu a chwareu offerynau. Llywyddion: y Parch. D. G. Rees, gweinidog, a'r Bonwr Lewis Morgan, Clydach. Cyfeilwyr; y Bonwyr Isaac E. Hopkin a H. H. Morgan. Aeth pob un trwy ei waith yn ganmoladwy. Dyddorol oedd gwrando y plant bach yn enwedig, pa rai ydynt yn argoeli, os y cant fywyd ac iechyd, ddod yn bwerau moesol ac ysbrydol i arwain ymofynwyr crefyddol yn mlaen at Ganaan eu hetifeddiaeth. Da iawn, blant anwyl!——Yn yr ysgoldy, nawn Nadolig, rhanwyd ychydig deganau i'r plant, fel cydnabyddiaeth seml o'u ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul yn y lle. Hefyd, rhoddwyd llyfrau gwerthfawr a chostus yn wobrwyon i'r plant yn nghyd a'r rhai mewn oed, am eu ffyddlondeb gyda'r mynychiad yn ystod y flwyddyn, a llwyddodd nifer dda i ddod o hyd i wobr. Clybuwyd fod amryw wedi addaw mynychu yr Ysgol Sul yn well yn nghwrs y flwyddyn ddyfodol, am y teimlant dipyn bach yn eiddigeddus wrth y rhai gawsant y gwobrwyon eleni. Sylwyd fod lluaws o'r ysgolheigion wedi cyflwyno i'r achos flwyddyn o fynychiad di-goll; ac y mae hyn yn datgan ein llawenydd a'n cysur; a mwy na hyny, yn arwyddo clod di-ball ar ben pob un o honynt. Diolchwn yn gynes i'r ffrindiau hyny benodwyd i bwrcasu a pharotoi yr holl ddefnyddiau at y gwaith, ac i weled i bob peth gael ei gario yn llwyddianus i'r diwedd, ac y gwna hyn, ni a obeithiwn, roddi cychwyniad bywiog, yn llawn asbri, i lafur cariad, i mewn i'r flwyddyn 1915.——Nos Sadwrn, Rhagfyr 26, yn lle nos Nadolig, am resymau neillduol, cafwyd ein cyfarfod blynyddol, yn nghapel y Graig, o dan lywyddiaeth yr amryddawn Barch. D. G. Rees, y gweinidog. Caffaeliad yw cael gafael yn un mor gymhwys i lywio ein llong. Cafwyd adroddiadau, unawdau lleisiol ac offerynol, cydganau, dadleuon, ymgomiau, ac areithiau hyawdl, ac awd trwy brwygraifft da a sylweddol. Cyfeiliwyd yma eto, gan y caredigion J. E. Hopkin a H. H. Morgan a'r Fonesig May Jenkins, Gellinudd. Clowyd y ddor wedi canu "Hen Wlad Fy Nhadau." I fyny bo'r nod. ——Nos Sadwrn, Ionawr 9fed, yn yr un lle traddododd y Parch. D. G. Rees ei ddarlith glodwiw ar y testyn, "*O Gellionen i Ganaan ac yn ol*," i

gynulliad lluosog. Da genym gael mantais a hamdden i longyfarch y cawr-ddarlithydd hwn, ar ei lwyddiant yn gwau a phlethu a chymhlethu bron i berffeithrwydd, un o'r darlithiau goreu glywyd er ys talm. Cerddwn ar flaenau ein traed wrth ddweyd, mai posibl yw, y gellid ei berwi i lawr ychydig, nes ei chael i gylch dwy awr, yna credwn, nas gellir yn hawdd gynyrchu darlith a graen mor ddymunol arni, a ffodusrwydd ei thraddodiad mor flodeuog. Lawned oedd y ddarlith o ergydion byw a tharawiadol. Gryfed oedd yr hanesyddol ynddi, a dengys hyny fod y darlithydd yn glamp o feistr ar ei waith yn hyn o beth ; ac yn goron ar y cyfan oedd y dyddordeb diamwys redai drwy y ddarlith o'i dechreu i'w diwedd. Trwy gymorth Llusern nerthol, arddangoswyd darluniau pert iawn ar y canfas, a gwnaeth y Llusernydd ei waith yn ardderchog. Ymddangosodd y darlithydd hefyd mewn gwisg a wisgir yn Nghanaan, a chafodd gymeradwyaeth ddyledus. Cadeiriwyd gyda deheurwydd gan y Parch. D. Gower Richards, Gosen, Trebanos. Terfynwyd gyda'r diolchiadau arferol. Melus, moes eto.

RHYDYGWIN. — LLWYDDIANT. — Mae yn hyfrydwch mawr genym gofnodi llwyddiant Miss M. A. Jones, Aldergate. Mewn arholiad a gynhelid gan yn y *London College of Music* yn Nghaerfyrddin cafodd Miss Jones Ddosparth Cyntaf gydag Anrhydedd mewn *Theory of Music*. Ei hathraw ydyw Mr. Barrow Griffiths, C.M., Cribyn. Mae Miss Jones wedi cael anrhydedd amryw droion o'r blaen. Mae ganddi nifer dda o ddysgyblion yn cael ei haddysgu i chwareu y berdoneg, ac y mae yn hynod o lwyddianus fel athrawes. Mewn arholiad a gynhelid gan yr un Coleg yn yr un lle, pasiodd Mary J. Williams, merch y Parch. a Mrs. Lewis Williams, Rhydygwin, yn y Dosbarth Blaenaf yn yr *Elementary Section*. Hefyd pasiodd Anne Ellen Evans, merch Mr. Evans, Fro, yn y *Primary Section*. Gan Miss M. A. Jones, Aldergate, y mae y ddwy yn cael eu haddysgu. O dan yr *Associated Board of the R.A.M. and R.C.M.* pasiodd Miss Gwladys Saunders Davies, merch Mr. a Mrs. D. Saunders Davies, Felinfach, yn yr *Elementary Section*. Yn ysgol Dr. Williams, Dolgelley, y mae Miss Davies yn cael ei haddysgu.——

IONAWR 8, cafodd plant a phobl ieuainc yr Ysgol Nos wledd o dê gan Mrs. Lewis Williams, Glascoed. Mae nifer dda yn perthyn i'r Ysgol Nos hon, a daethant oll yn nghyd. Ar ol diwallu eu hunain, a chael amser i glirio y byrddau, cafwyd cyfarfod o adrodd a chanu. Mae y cyfarfod hwn a gynhelir genym yn flynyddol oddi ar gychwyniad yr Ysgol Nos yn dangos cynydd y naill flwyddyn ar ol y llall, ac yr oedd y tro yma yn un a roddodd fwynhad neillduol i bawb oedd yn bresenol. Dengys hyny fod yr Ysgol Nos yn cyflawni gwasanaeth dda. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mrs. Williams gan Mr. Hughes, Rhydfydr, ac eiliwyd gan Mr. Evans, Penwern. Y Sul cyntaf o'r flwyddyn hon derbyniwyd naw o aelodau newyddion i'r eglwys ; a chredwn y byddant oll yn rai ffyddlon a gwasanaethgar.

ANERCHIAD O'R INDIA. (Oddiwrth Brif-athraw Coleg Dyal Singh, Lahore.) At y Parch. R. J. Jones. "Hyderaf ei bod yn dda arnoch chwi a'ch eiddo. Mae y rhyfel erchyll presenol yn peri fod un yn bryderus yn nghylch chwiorydd a brodyr o fewn y cylch peryglus. Yn awr fel erioed yr ydym yn byw trwy gariad yr un a addolwn. Y mae pob calon ddynol yn em yn yr Holl-gariad ; mor drist fod cynifer o galonau yn cael eu trallodi yr amser presenol hwn ! Mi a ddymunwn i alar a dagrau y genedl basio heibio yn fuan, yn fuan ! Boed i'r weddi am heddwch y Cenhedloedd y mae'r Crist o hyd yn eu caru ddylifo megis ffynon at y Tad gore ! Bydded i'r Arglwydd fendithio'r Fam Nerthol, Prydain, a bydded i aberth India anwyl ar allor yr Ymherodraeth a'i Phen Coronog gael eu derbyn yn Asrama Wen

Sanctaidd y rhai Dysglaer er Iachawdwriaeth Cenedloedd y Byd."

CENEDL AR EI GLINIAU.

Cenedl ar ei gliniau — pobl ar weddi! Ceisier sylweddoli. Mae yn rhywbeth mawreddog. Mae yna ysprydiaeth fyw yn y syniad. Mwy na'r darlun yn y meddwl o fyddinoedd yn myned allan i ryfel yw'r darlun hwn o genedl yn gweddio ar fod i ryfeloedd a son am ryfeloedd beidio a bod.

Oni allwn ni ddywedyd mai oes ffydd mewn gwirionedd yw'r oes hon? ni fu erioed yn hanes y byd y fath ffydd yn mherffeithiad y ddynoliaeth —y fath ffydd yn ngalluoedd adlywiol y dyn ei hunan.

Cred dynion heddyw bethau rhy anhawdd i'w credu gan oesoedd y gorphenol. Credant fod rhyfeloedd i ddarfod allan o'r byd. Credant y ceir allan ryw ffordd i alluogi dyn i fyw mewn heddwch a'i gyd-ddyn.

Credant nad oes yr un ffurf o welliant cymdeithasol yn anmhosibl Credant y gellir difodi clefyd i raddau pell allan o'r byd gwareiddiedig. Credant y daw adeg pan fydd poblloedd yr holl ddaear wedi dysgu gwers fawr hunan-lywodraeth.

Nid oes dim yn rhy galed, dim yn rhy uchel i'r byd heddyw ei gredu. Cred dynion mewn gwyrthiau o hunan-aberth a hunanymwadiad. Credant mewn cariad, mewn purdeb, mewn anrhydedd. Credant mewn delfrydau gwell o wirionedd ac o ardderchogrwydd ymddygiad nad yw eto wedi ei sylweddoli.

Ni thwyllant eu hunain a'r meddwl am berffeithrwydd uniongyrchol. Ni chredant y gall yr holl bethau hyn flodeuo i weithrediad yn unig drwy gau llygaid. Ond y mae'r byd wedi teimlo posibliadau'r bywyd hwn mewn modd na wnaeth erioed o'r blaen, ac y mae ganddo ffydd yn yr hyn y mae yn ei deimlo.

Galwch yr oes hon yn oes o amheuaeth, o anhygoeledd? Dywedwch fod gwyddor wedi newid yr oll gyda'i lygaid oer, treiddgar? Awgrymwch fod hynyna oll yn blaen, yn faterol, yn ffaith — fod ffydd heddyw yn beth marw ac nad oes neb yn credu dim?

Ni chredodd erioed gymaint! Ni fu erioed o'r blaen y fath hyder cryf a diamheuol y bydd i ddelfrydau uchel fuddugoliaethu yn y pen draw, fod holl bethau mawrion a da'r byd yn bosibiliadau amlwg.

Ni ddichon rhyfeloedd na son am ryfeloedd ddiffodd y ffydd hon. Cyfyd uwch mwg a dinystr rhyfel. Am foment yn unig gwrendy ar lais amheuaeth, yna â yn mlaen ar ei llwybr dysglaer — o hyd yn dal wrth y gobaith anghyfnewidiol, o hyd yn dilyn yn y cysgod.

EBION DOETH O ENEU AHIBUR.

1. Fy mab, melusa dy dafod, gwna'n flasus agoriad dy eneu, canys fe ddwg ei gynffon fara i'r ci, ond ei enau a ddwg gareg.

2. Fy mab, y praidd sy'n gwneud ei lwybrau'n lluosog a aiff yn ysglyfaeth i'r bleiddiaid.

3. Fy mab, barna farn gyfiawn yn dy ieuenctid, fel y gallot yn dy henaint ddysgwyl anrhydedd.

4. Fy mab, na oddef i'th gymydog sangu ar dy droed rhag iddo yn ddiweddarach sangu ar dy wddf.

5. Fy mab, taro'r gwr doeth a geiriau doeth, fel y gallo yn ei galon fod fel twymyn yn yr haf; ond gwybydd os tarewi ffwl ag aml ergydion ni ddealla.

6. Fy mab, anfon wr doeth heb roi iddo orchymynion; ond os ffwl anfoni, yn hytrach dos dy hun a phaid a'i anfon ef.

7. Fy mab, os dygwydd i ffrwd yr afon redeg yn ei ol, os aiff yr adar i hedfan heb adenydd, os try plu'r fran yn wyn fel yr eira, yna gelli ddysgwyl i ffwl ddyfod yn ddoeth.

8. Fy mab, os myni fod yn ddoeth, cadw dy dafod rhag traethu twyll, a'th ddwylaw rhag lladrad.

BANK NOTE.—Y mae'r *Institute of Bankers* wedi dyfod i feddiant o'r hyn a gredant yw'r *Bank Note* hynaf mewn bodolaeth. Ei ddydd-

iad yw 1675, ac wedi ei dynu allan yn enw "Mr. Thomas ffowles Gouldsmith, at his shop between the two Temple Gates at Fleetestreete." Mae'n darllen :—"I desire you to pay unto Mr. Samuell Howard or order upon receipt hereof the sum of nine pounds thirteene shillings and sixe pence and place it to the account of your Yr. servant, Edmond Warcupp."

NADOLIG 1914.

Dyma gopi o garden Nadolig, yr ore ddaeth i Broniestyn yn 1914.

"Pan y mae'r hen flwyddyn yn marw, gan adael llawer cartref yn anghyfanedd a'r holl genhedloedd yn dlotach ac yn dristach, gadewch i ni nesu at ein gilydd mewn cyfeillgarwch cariadus gan roi diolch am dymor Nadolig ac am yspryd Nadolig, sy'n gwneud yr hen eiriau cynhefin mor llawn o ystyr i ni yn ein hangen ac yn ein tristwch—

Ar y Ddaear Tangnefedd,
I ddynion Ewyllys Da."

Oddiwrth

M. EVANS.

Lydgate.

CONGL YR AWEN.

YR ARDD.

Lle dâ, ol llaw y diwyd—da i gynyrch
Digonol a glanbryd
Ydyw gardd, dyg hi o hyd
O'i thŵf a'i chyfoeth hefyd.

Llwyni deiliog llawn diliau—a gawn
Yn ein gardd, a ffrwythau,
A moliant ei hymylau
Yw llysiau per er lles pau.

Blodyn yn gwyneb-ledu,—afalau
Yn filoedd yn gwenu ;
Glân aeron llawnion yn llu
Sy'n hudolus i deulu.

Rhydd Gardd ei ffrwyth yn llwythi, -ireiddiol
Yw ei rhoddion drwyddi,
Rhwng mil o'i rhos a'i lili
Huliodd y nef wledd i ni.

THOMAS DAVIES.

Gors Einon.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion.

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy.
By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge.
By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
George Franklin, Esq., Sheffield, Esq.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
John Glasbrook, Esq., Esq., Swansea.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
Frederick William Nash, Esq
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
Sir Joseph Weston-Stephens, Bristol.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry; Sir Guy Douglas Arthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., G.C.I.E.

Subscribed Capital .. £22,947,804. **Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.**

Reserve Fund .. £4,000,000.

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.